YSGOL BRYNREFAIL

THE SLUG CLUB

Y mae'r clwb, a enwir uchod, yn ymgynnal bob wythnos , yn eu hamser eu hunain, gyda Ms Catherine Jones yn fentor arnynt ac yn gefnogaeth iddynt. Criw o ddisgyblion talentog a dawnus ydynt sydd yn teimlo'n angerddol tuag at ysgrifennu drwy'r iaith Saesneg. Eisoes y mae gwaith tri ohonynt wedi ei ddewis i'w gyhoeddi mewn blodeugerdd o storiâu byrion a'r nod am y flwyddyn nesaf yw cystadlu'n gyson.

Eleni fe greuwyd flodeugerdd o'u gwaith o fewn yr Ysgol ac fe'i gyrrwyd i bob Ysgol gynradd yn y dalgylch i ysbrydoli eraill sy'n iau na nhw i ddechrau ysgrifennu o ddifrif.

Ar hyn o bryd maent yn gweithio ar ddarnau barddoniaeth a mawr obeithiwn y cawn eu darllen yn y dyfodol agos.